
ADREF





**Annwyl Dduw, ti sy'n rhoi lloches inni,**

 

**helpu pawb i ddod o hyd i le diogel,**

 

**lle gallant ei alw yn gartref. Amen**

Bydd fy mhobl yn byw mewn
cymunedau saff, tai diogel, a lleoedd
i orffwys yn dawel.(Eseia 32:18)





*Diolch*

*Mae'n ddrwg gen i*

*Os gweli di'n dda*

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Marco Bianchetti

Annwyl Dduw, mae ein bywydau a'n




cyrff yn llawn potensial. Gad i ni eu




defnyddio er lles a daioni. Amen

Ti greodd fy meddwl a'm teimladau;
a'm plethu i yng nghroth fy mam. Dw
i'n dy foli di, am fod dy waith di mor
syfrdanol a rhyfeddol!
(Salm 139:13 – 14a)





Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Elemende Inagella

 

Annwyl Dduw, rho dy heddwch



a'th gariad pan mae pobl yn teimlo'n

  

ofnus neu anniogel. Amen

Ti ydy'r lle saff i mi guddio! Ti'n fy amddiffyn i rhag trafferthion. (Salm 32:7a)





Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together




©Jamal Yahyayev

 

Annwyl Dduw, rwyt ti wastad gyda ni. Wrth i

  

ni fynd trwy'r da a'r drwg yn ein bywydau,



atgoffa ni dy fod ti yno bob amser. Amen

Y fath fendith sydd i'r sawl sy'n darganfod doethineb, ac yn llwyddo i ddeall. (Diarhebion 3:13)





Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together




©Jamal Yahyayev



**Annwyl Dduw, rydyn ni'n meddwl am**

 

**bobl sy'n sâl ar hyn o bryd. Os gweli'n**

  

**dda cysura a helpa nhw. Amen**

Dywedodd Iesu: "Chi roddodd ddillad i mi pan oeddwn i'n noeth; chi ofalodd amdana i pan oeddwn i'n sâl; chi ddaeth i ymweld â mi pan oeddwn i yn y carchar." (Mathew 25:36)





**Diolch** **Mae'n ddrwg gen i** **Os gweli di'n dda**

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Kostenlose Nutzung





# Annwyl Dduw, gweddïwn dros bawb



# fydd yn mynd i'r gwely yn llwglyd







# heddiw. Helpa ni i ofalu amdanynt. Amen

Dyma Iesu'n datgan, "Fi ydy'r bara sy'n rhoi bywyd. Fydd pwy bynnag ddaw ata i ddim yn llwgu, a fydd pwy bynnag sy'n credu ynof fi ddim yn sychedu." (Ioan 6:35)





Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Power Lai




**Annwyl Dduw, diolch am bopeth sy'n**






**gwneud i ni wenu a chwerthin. Bydd**







**gyda ni pan rydym yn mwynhau. Amen**

Mae amser i wylo ac amser i chwerthin, amser i alaru ac amser i ddawnsio. (Pregethwr 3:4)





Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Pixabay





**O Dduw anhygoel, rydym yn diolch i ti**



**am amseroedd hapus. Helpa ni i rannu**



**hapusrwydd gydag eraill. Amen**

**Dywedodd Iesu: "Dw i wedi dod i roi bywyd i bobl, a hwnnw'n fywyd ar ei orau." (Ioan 10:10b)**





**Diolch**

**Mae'n ddrwg gen i**

**Os gweli di'n dda**

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Pineapple Supply Co




**Annwyl Dduw, diolch am yr adegau**

**hynny mewn bywyd pan fydd gennym**



**resymau i ddathlu. Amen**

Byddwch yn llawen bob amser am eich bod yn perthyn i'r Arglwydd. Dw i'n dweud eto: Byddwch yn llawen! (Philipiaid 4:4)





Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together


©Cdoncel

  

# Annwyl Iesu, diolch am neges y Pasg,

# sy'n ein atgoffa dy fod

 

# am fod yn ffrind i ni am byth. Amen

Dywedodd Iesu: "Dysgwch nhw i wneud popeth dw i wedi'i ddweud wrthoch chi. Gallwch chi fod yn siŵr y bydda i gyda chi bob amser, nes bydd diwedd y byd wedi dod." (Mathew 28:20)





**Diolch** **Mae'n ddrwg gen i** **Os gweli di'n dda**

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©NASA





# Dduw'r Creawdwr, mae ein byd yn anhygoel.



# Dangos i ni sut y gallwn ofalu amdano gan





# ddiogelu ein hamgylchedd. Amen

Yr ARGLWYDD piau'r ddaear a phopeth sydd ynddi: y byd, a phawb sy'n byw ynddo. (Salm 24:1)





Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Cup of Couple



# Beth hoffet ti ei






# ddweud wrth Dduw?

?

Peidiwch gadael i ddim byd eich poeni chi. Gweddïwch, a gofyn i Dduw am bopeth sydd arnoch ei angen, a byddwch yn ddiolchgar bob amser. (Philipiaid 4:6)





Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Cottonbro Studio

Annwyl Dduw, rwyt ti'n ein caru ac am

y gorau i ni. Cysura'r rhai hynny

sy'n teimlo'n drist ar hyn o bryd. Amen

Dywedodd yr ARGLWYDD: "Paid bod ag ofn, achos dw i gyda ti. Paid dychryn – fi ydy dy Dduw di!" (Eseia 41:10a)

Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Anastasiia Krutota




**Annwyl Dduw, helpa ni i fod yn garedig**



**a gofalus a hael wrth bawb**



**rydyn ni'n cwrdd â nhw. Amen**

**Eich lle chi ydy bod yn garedig, yn dyner gyda'ch gilydd. (Effesiaid 4:32a)**





**Diolch**

**Mae'n ddrwg gen i**

**Os gweli di'n dda**

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Andre Hunter

Annwyl Dduw, weithiau rydyn ni'n flin ac yn ddig wrth eraill. Rhanna dy heddwch gyda ni ar adegau fel hyn. Amen

Dylai pob un ohonoch fod yn awyddus i wrando a pheidio siarad yn fyrbwyll, a gwybod sut i reoli ei dymer. (Iago 1:19b)

Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda



©Kenny Eliason



# Annwyl Dduw, diolch am yr holl bobl



# hynny sy’n ein cadw ni’n ddiogel



# ac yn iach. Amen

**Felly bob cyfle gawn ni, gadewch i ni wneud daioni i bawb. (Galatiaid 6:10a)**





**Diolch**

**Mae’n ddrwg gen i**

**Os gweli di’n dda**



Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Beate Bachmann



 

Annwyl Dduw, ti greodd popeth o'r

 

creadur lleiaf i'r goeden fwyaf.

  

Diolch am ein byd rhyfeddol. Amen

"Ein Harglwydd a'n Duw! Rwyt ti'n deilwng o'r clod a'r anrhydedd a'r nerth. Ti greodd bob peth, ac mae popeth wedi'u creu yn bodoli am mai dyna oeddet ti eisiau." (Datguddiad 4:11)





Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©CC BY-SA 4.0 Sylvanian families



 

# Annwyl Dduw, gofynnwn i ti gadw bawb o'n ffrindiau a'n teuluoedd

   

# yn hapus, iach a diogel. Amen

Mae mor dda, ydy, mae mor hyfryd pan mae pobl Dduw yn eistedd gyda'i gilydd. (Salm 133:1)





**Diolch**

**Mae'n ddrwg gen i**

**Os gweli di'n dda**

Cyngor Ysgolion Sul



©Jackson Simmer

Annwyl Dduw, mae’n ddrwg gennym am y pethau rydyn ni wedi’u dweud a’u gwneud sydd wedi brifo eraill. Maddau i ni. Amen

Byddwch yn oddefgar, a maddau i eraill
pan dych chi’n meddwl eu bod nhw ar
fai. Maddeuwch chi i bobl eraill yn union
fel mae’r Arglwydd wedi maddau i chi.
(Colosiaid 3:13)

Diolch

Mae’n ddrwg gen i

Os gweli di’n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©This-is-Zun

 

# Annwyl Dduw, bendithia ni, a bydd



# gyda phob un ohonom

 

# wrth i ni ddweud hwyl fawr. Amen

**Boed i'r ARGLWYDD eich bendithio chi a'ch amddiffyn chi. (Numeri 6:24)**



 **Diolch**

***Mae'n ddrwg gen i***

***Os gweli di'n dda***

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Dari LLi

**Annwyl Dduw, mae gen ti gynllun da ar gyfer bywydau pawb. Helpa ni i fod y gorau y medrwn fod. Amen**

**“Fi sy’n gwybod beth dw i wedi’i gynllunio ar eich cyfer chi,” meddai’r ARGLWYDD. “Dw i’n bwriadu eich bendithio chi, dim gwneud niwed i chi. Dw i am roi dyfodol llawn gobaith i chi. (Jeremeia 29:11)**

***Diolch***

***Mae’n ddrwg gen i***

***Os gweli di’n dda***

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Belle Co




**Iesu, rwyt ti'n ffrind i bawb.**




**Helpa ni i fod yn ffrind da i eraill**




**ac i gofio am bawb. Amen**

**Mae ffrind yn ffyddlon bob amser.**
**(Diarhebion 17:17a)**





***Diolch***

***Mae'n ddrwg gen i***

***Os gweli di'n dda***

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together


TEMPO
UP
DOWN
VOICE
BANJO HARP VIOLIN BELL PIANO ORGAN
FLUTE TRUMPET GUITAR MUSIC BOX SAXOPHONE STRING
A.B.C.VOLUME
ROCK S.ROCK DISCO MARCH WALTZ 8 BEAT RUMBA 16 BEAT
STYLE
VIB CHORD RECORD R.PLAY SEL ALL
DEMO
STOP
SUSTAIN GUIDE PROGRAM FILL-IN SWITCH MELODY
ON
OFF
POWER
MAIN VOLUME
Electronic Keyboard

©Ron Lach





Annwyl Dduw, diolch am y gwahanol





mathau o gerddoriaeth y gallwn wrando





arnynt, ac i ddawnsio iddynt. Amen

Gadewch i ni fynd ato yn llawn diolch; gweiddi'n uchel a chanu mawl iddo! (Salm 95:2)





Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul



©Cristiana Raluca



# Annwyl Dduw, cadw ni'n ddiogel



# wrth i ni fynd a dod bob dydd



# heddiw ac am byth. Amen

Bydd yr ARGLWYDD yn dy gadw
di'n saff ble bynnag ei di, o hyn allan
ac am byth. (Salm 121:8)





**Diolch**

**Mae'n ddrwg gen i**

**Os gweli di'n dda**

Cyngor Ysgolion Sul



©Pixabay



# Annwyl Dduw, diolch am ein cymuned, y



# mannau hynny sy'n bwysig ac yn annwyl



# i ni ac am bawb sy'n byw yno. Amen



**Meddai Iesu: "Pan mae dau neu dri sy'n perthyn i mi wedi dod at ei gilydd, dw i yna gyda nhw." (Mathew 18:20)**



**Diolch**

**Mae'n ddrwg gen i**

**Os gweli di'n dda**

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together



©Sunguk Kim



Annwyl Dduw, lle bynnag mae yna



ymladd yn ein byd, cadw pawb yn







ddiogel a rho heddwch i'n byd. Amen

"Stopiwch!" Meddai Duw. "Mae'n bryd i chi ddeall mai Duw ydw i!" (Salm 46:10a)





Diolch

Mae'n ddrwg gen i

Os gweli di'n dda

Cyngor Ysgolion Sul

URC Children Together